**Dyddiad cyhoeddi** Mai 2010

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

# Trin dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint drwy ail-leoli rhan o'r macwla â phwyth

*Mae 'arweiniad IechydTech' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth yn y GIG i ail-leoli rhan o'r macwla er mwyn trin pobl â dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint (AMD). Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad IechydTech yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Dengys tystiolaeth nad yw'r driniaeth hon yn gweithio ym mhob claf, a bod posibilrwydd o broblemau difrifol o ganlyniad i'r llawdriniaeth. Os yw meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Dylai hefyd egluro'r triniaethau eraill sydd ar gael i'r claf. Dylai hyn ddigwydd cyn i’r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylai'r claf gael y daflen hon ac unrhyw wybodaeth arall fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro’r hyn sy’n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

### Sylwadau eraill gan NICE

Cyn y cynigir llawdriniaeth, caiff y rhan fwyaf o gleifion â dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint eu trin â chyffuriau a elwir yn gyfryngau ffactor twf endothelaidd gwrthfasgwlaidd, sy'n rhwystro'r pibellau gwaed yn y llygad rhag tyfu. Mae tystiolaeth yn awgrymu os nad yw claf yn ymateb i driniaeth â chyffuriau, ei bod yn debygol na fydd y driniaeth hon yn gwella ei olwg chwaith.

## Trin dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint drwy ail-leoli rhan o'r macwla â phwyth

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw ‘trawsleoliad macwlaidd cyfyngedig ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint’.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Yn y llygad, mae'r retina yn gorchuddio wal gefn pelen y llygad a hon yw'r haen o gelloedd sy'n gyfrifol am greu golwg. Mae dirywiad macwlaidd yn effeithio ar ardal y retina sy'n gyfrifol am olwg manwl (y macwla). Oherwydd bod dirywiad yn digwydd mewn pobl hŷn fel arfer, caiff ei alw'n ‘ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint’ hefyd. Mae dau fath - ‘sych’ a ‘gwlyb’. Achosir y ffurf wlyb gan waedu yng nghefn y llygad a achosir gan dwf pibellau gwaed newydd, a gellir colli golwg yn gynt nag yn y ffurf sych.

Nod y driniaeth hon yw gwella golwg drwy ail-leoli'r macwla fel ei fod yn gorwedd dros ran iachach o belen y llygad nad yw twf pibellau gwaed newydd wedi effeithio arni. Un ffordd o wneud hyn yw gwneud toriad bach yn y retina a chwistrelli hylif oddi tano fel ei fod yn dod yn rhydd o'r haen o feinwe islaw. Yna bydd y llawfeddyg yn gosod 'plŷg' yn haenau allanol y llygad ac yn cadw'r plŷg yn ei le â phwyth. Y canlyniad yw bod y rhan o'r macwla sydd wedi dirywio yn gorwedd dros feinwe iachach yn y llygad.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hon i chi, dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu nad yw pob claf yn cael budd o'r driniaeth, ac y gall cymhlethdodau difrifol ddatblygu o ganlyniad i gael y driniaeth. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal fydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth fydd yn digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE isod. Edrychodd NICE ar bum astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn un astudiaeth, roedd canlyniadau ar ôl blwyddyn ar gael ar gyfer 86 allan o 151 o gleifion. Mewn 69 o'r cleifion hyn, roedd eu golwg wedi gwella. Mewn astudiaeth o 65 o gleifion, roedd golwg y cleifion a gafodd y driniaeth wedi gwella mwy o gymharu â chleifion a gafodd fath o driniaeth laser a elwir yn therapi ffotodeinamig (PDT).

Yn yr astudiaeth o 101 o gleifion, roedd y driniaeth yn llwyddiannus, o ran symud y macwla mor bell ag y cynlluniwyd, mewn 52 allan o 86 o lygaid yr edrychwyd arnynt 12 mis ar ôl y llawdriniaeth. Mewn astudiaeth arall, symudwyd y macwla mor bell ag y cynlluniwyd mewn 17 allan o 25 o gleifion.

Yn yr astudiaeth o 65 o gleifion, gwelwyd bod pibellau gwaed annormal wedi aildyfu yn yr ardal y symudwyd y macwla iddi mewn 13 o lygaid pan edrychwyd ar gynnydd y cleifion 4.8 mis ar gyfartaledd ar ôl y driniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r ffactorau llwyddiant yw gallu gweld yn well, gallu darllen yn gynt, gwell ansawdd bywyd a ph'un a oes niwed pellach i'r macwla o ganlyniad i'r afiechyd yn dychwelyd.

### Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 65 o gleifion, nodwyd cymhlethdodau ar ôl y llawdriniaeth mewn 36 o gleifion, gan gynnwys dirywiad yn eu golwg.

Cofnodwyd achosion o ddatodiad y retina mewn pum llygad ymhlith y 36 o gleifion, a bu'n rhaidd iddynt gael llawdriniaeth arall i ailgysylltu'r retina.

Yn yr astudiaeth o 151 o gleifion, daeth datodiad y retina yn llai cyffredin wrth i'r profiad llawfeddygol gynyddu dros amser. Cofnodwyd achosion o ddatodiad y retina mewn 25 allan o 153 o lygaid pan edrychwyd arnynt rhwng un a 13 wythnos ar ôl y driniaeth (roedd angen llawdriniaeth arall ar 21 ohonynt). Cofnodwyd 'toriad' yn y retina mewn 13 o lygaid, ond ni roddwyd mwy o wybodaeth.

Mewn un astudiaeth, cofnodwyd golwg dwbl mewn 14 allan o 250 o gleifion a gafodd eu trin â'r driniaeth hon. Mewn astudiaeth lai, cafodd un allan o ddau o gleifion olwg dwbl, ond roedd hyn wedi gwella heb lawdriniaeth bellach pan edrychwyd ar eu cynnydd ar ôl pum mis.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod problemau posibl eraill yn cynnwys cataractau a phlŷg retinol yn yr ardal facwlaidd sy'n parhau dros amser. Gallai fod perygl o haint yn haenau mewnol y llygad (a elwir yn endoffthalmitis).

## Rhagor o wybodaeth am ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. Am fanylion am holl ganllawiau NICE ar ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint, gan gynnwys y driniaeth lle y caiff y rhan o'r retina yr effeithiwyd arni ei thynnu, ei chylchdroi'n gyfangwbl ac yna'i hailgysylltu, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r canllawiau'n berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'thrawsleoliad macwlaidd cyfyngedig ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/HTG215*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8126-7
N2251 1P 12 May 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations,

or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE